Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

## Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst 2022 hyd at 31 Gorffennaf 2023

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, anfonwch e-bost at y Brifysgol ar iaithgymraeg@pcydds.ac.uk.

**Cyflwyniad**
Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar gydymffurfiaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wrth gyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg, a thrwy hynny yn darparu gwerthusiad y Brifysgol o'r modd y mae'n hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y cyfnod o 1 Awst 2022 hyd 31 Gorffennaf 2023

Yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-2024, noda'r Brifysgol mai ei gweledigaeth yw 'bod yn Brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.' Un o'i saith gwerth craidd yw 'Cymru a'i chymeriad arbennig' trwy 'ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.' Ei gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefndir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd yn ein rhanbarth, ar draws Cymru a thu hwnt.

Mae'r Brifysgol yn gartref i nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau o bwys yng Nghymru, gyda phencadlysoedd Theatr Genedlaethol Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac S4C wedi'u lleoli ar ei champws yng Nghaerfyrddin.

Yn ystod 2022/23, parhaodd y Brifysgol â'i dyletswydd i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau, drwy gynnal sesiynau ymgysylltu gydag adrannau ac athrofeydd, cynnal ymarferion hunanasesu, darparu cyngor a chanllawiau, ynghyd â sicrhau bod adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno yn y pwyllgorau priodol.

Nod y Brifysgol yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu'r iaith, i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd i fagu hyder wrth ei defnyddio yn y gweithle. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae rhaglen o gyfleoedd ar gael i staff ddysgu Cymraeg ar bob lefel.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod ein cydymffurfiaeth a'r Safonau ac yn cyflwyno data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Er bod gwelliannau i'w gwneud o hyd, nodwn ein bod wedi gwneud cynnydd o ran gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i chwarae ein rhan yn yr ymdrech genedlaethol i gynyddu'u nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

**Cyd-destun**
Ers 1 Ebrill 2018, mae Prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Bwriad y Safonau hyn yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg;
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

Mae'r Safonau sydd wedi'u gosod ar y Brifysgol wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.
Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad.

Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- **Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau**
  Y modd y gwnaeth y Brifysgol gydymffurfio â'r Safonau yr oeddem dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi, Safonau Gweithredu.)

- **Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**
  Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.

- **Hyfforddiant**
  Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi penodol a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg.

- **Swyddi**
  Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu hasesu am sgiliau yn y Gymraeg, a'u categoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:
  - Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
  - Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
  - Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
  - Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

- **Cwynion**
  Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi, Safonau Gweithredu.)

**Llywodraethau a Phwyllgorau**

Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r Brifysgol wedi penodi Is-Ganghellor newydd sef yr Athro Elwen Evans CB, a ddechreuodd yn ei rôl ym mis Mehefin gan gymryd yr awenau fel Is-Ganghellor gan yr Athro Medwin Hughes, DL. Yn flaenorol roedd yr Athro Elwen Evans CB, yn Ddirprwy Is-Ganghellor a Deon Gweithredol ar gyfer Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Abertawe gyda chyfrifoldeb am yr Iaith a Diwylliant Cymraeg yn y Brifysgol.

Dywedodd yr Athro Medwin Hughes, DL,: "*Hoffwn longyfarch yr Athro Evans ar ei phenodiad a dymunaf yn dda iddi yn y swydd. Mae hi'n adnabyddus fel arweinydd creadigol a deinamig sydd â hanes amlwg o gyflenwi rhaglenni trawsnewid, newid diwylliannol a datblygu strategol llwyddiannus.*

"*Mae hi'n ymuno â sefydliadau nad ydynt erioed wedi ofni newid. Lles y genedl sydd wrth wraidd taith drawsnewidiol Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Bydd yr Is-Ganghellor newydd yn parhau â'r gwaith i sefydlu Prifysgol newydd i Gymru. Gallaf ei sicrhau y gall ddibynnu ar gefnogaeth lawn y Prifysgolion wrth iddi ddechrau ar y bennod newydd gyffrous hon yn hanes ein sefydliadau*."

Ar lefel arweinyddiaeth strategol mae'r Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Trafodir yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Safonau ym mhrif Bwyllgor y Gymraeg y Brifysgol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol.

Oddi ar 1 Ebrill 2023, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am oruchwylio cydymffurfiaeth fewnol Safonau'r Gymraeg i'r Adran Llywodraethu Corfforaethol. Mae Swyddog Safonau'r Gymraeg newydd wedi'i benodi i lenwi'r swydd wag yn dilyn ymadawiad deiliad blaenorol y swydd. Dechreuodd Swyddog Safonau'r Gymraeg yn ei swydd ym mis Tachwedd 2023. Bydd Swyddog Safonau'r Gymraeg yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl staff y sefydliad yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg, yn ogystal â chefnogi'r disgyblaethau academaidd a'r unedau proffesiynol o ddydd i ddydd.

Yn ychwanegol at y trefniant uchod, ac fel ffordd o hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg ymhellach, mae'r Brifysgol yn cynnal Canolfan Gwasanaethau Cymraeg, sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Goruchwylio Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol
- Hyfforddiant iaith Gymraeg i staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol
- Datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol
- Darparu adnoddau Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i'r sector addysg yng Nghymru a thu hwnt

## Strwythur Pwyllgorau'r Gymraeg

### Pwyllgor Y Gymraeg

Trafodir yr holl faterion sy'n ymwneud a'r Safonau ym mhrif Bwyllgor y Gymraeg y Brifysgol. Mae gan y Pwyllgor hwn rôl benodol i fonitro gweithrediad Safonau Cymraeg y Brifysgol, ynghyd â bod yn gyfrifol am oruchwylio materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog a phrofiad myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol ac fe'i cadeirir gan Gyfarwyddwr Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol.

### Is-bwyllgorau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau perchnogaeth o'r Safonau a'r holl faterion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad trwy greu'r is-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgorau'r Gymraeg o fewn pob un o'r 3 Athrofa Academaidd
    - Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau
    - Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf
    - Athrofa Rheolaeth ac Iechyd
- Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Gwasanaethau Proffesiynol – yn cynnwys cynrychiolaeth o bob un o unedau gwasanaethau cymorth a chanolog y Brifysgol

### Hwyluswyr y Gymraeg

Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys hwyluswyr y Gymraeg sydd wedi'u dynodi ym mhob Ysgol ac Uned ac sy'n cwrdd naill ai fel aelodau o Bwyllgorau'r Gymraeg Athrofeydd neu drwy Rwydwaith Iaith Gymraeg y Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae'r unigolion hyn hefyd yn cwrdd i drafod arfer da a syniadau ac yn gweithredu fel rhwydwaith ar Teams rhwng cyfarfodydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a'u hyrwyddo'n briodol. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgor yn cael eu bwydo'n ôl i brif bwyllgor yr Iaith Gymraeg gan y Cadeirydd.

## 1. Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg yn Ystod y Cyfnod Adrodd [2022-23]

**Strategaeth Iaith Gymraeg 2022-2026 PCDDS**

Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo'n ffurfiol gan Gyngor y Brifysgol ym mis Mawrth 2023. Mae'r Strategaeth yn gosod gweledigaeth y Brifysgol ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, drwy ehangu a datblygu'r ddarpariaeth academaidd, y gwaith ymchwil a'r gweithgaredd ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg, ynghyd â gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg; a thrwy hyn gwreiddio ethos dwyieithog ar draws pedwar campws y Brifysgol yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon yn sail i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr dwyieithog arfer eu Cymraeg, ac i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ynghyd â chynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd creu a phenodi i'r rôl newydd - Rheolwr Addysg Cyfrwng Cymraeg – yn arwydd o ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach ac mae'r swydd hon yn un allweddol i weithrediad y Strategaeth.

Caiff adroddiadau cynnydd wrth weithredu'r Strategaeth eu cyflwyno a'u trafod ym Mhwyllgor Y Gymraeg, ynghyd â'r Is-bwyllgorau.

**Adrodd ar Gynnydd**

- Mae'r tair Athrofa wedi cytuno ar gynnwys eu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn adrodd yn ffurfiol ar gynnydd.
- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau cynefino i'r myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg gan Gangen y Coleg Cymraeg ar draws campysau'r Brifysgol gan dynnu sylw at fuddion astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, prosesau ymgeisio am ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Sgiliau Iaith a bywyd cymdeithasol Cymraeg ar ein campysau.
- Mae prosiect ar waith ynghylch codio modiwlau cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o wella'r ffordd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei hyrwyddo i fyfyrwyr. Yn yr un modd, bydd hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn cyflwyno data yn fwy effeithiol i HESA/HEFCW. Cyflawnir y gwaith hwn ar y cyd â'r Swyddfa Academaidd a'r Uned Llywodraethu Corfforaethol
- Lansiwyd Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Polisi a Chynllunio Iaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, yn bresennol.
- Mae rôl y Brifysgol fel prif ddarparwr y Cynllun Sabothol i athrawon wedi'i ymestyn nes 2025.

**PCDDS yn Cydnabod Rhagoriaeth Dysgu ac Addysgu Cyfrwng Cymraeg:**

Yn rhan o Gynhadledd Gwobrwyo Dysgu ac Addysgu Nexus [29/6], fe gafodd gwobr a oedd yn canolbwyntio ar addysgu a/neu darparu cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg /dwyieithog ei gynnwys, a hynny am y tro cyntaf. Enillydd y wobr rhagoriaeth hon oedd Gwenllian Beynon, Uwch Ddarlithydd yr Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru. Llwyddodd i greu diwylliant dwyieithog cryf trwy annog cyfathrebu yn y Gymraeg ymhlith myfyrwyr a staff. Arweiniodd ei hymdrechion at sicrhau cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyson drwy gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio modiwlau'n ddwyieithog. Yn nodedig, fe gychwynnodd y Ddarlith Flynyddol a'r seremoni wobrwyo ar Ddydd Gŵyl Dewi, sydd wedi dod yn ddigwyddiad arwyddocaol sy'n dathlu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Bu hefyd yn grymuso myfyrwyr maes i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol wrth gyfleu eu syniadau, sy'n amlwg yn eu gwaith.

Mae ei chefnogaeth i fyfyrwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod trafodaethau wedi gwella eu cyflogadwyedd ac wedi trawsnewid y diwylliant o fewn Celf a Dylunio. Yn ogystal, daeth ei

meddwl arloesol ag artistiaid preswyl i ysgogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Yn gyffredinol, mae ei hymroddiad i ddwyieithrwydd, diwylliant Cymru, a chefnogaeth myfyrwyr wedi ei gwneud yn ffigwr hynod ddylanwadol a oedd yn haeddu'r gydnabyddiaeth bwysig hwn o fewn y Brifysgol.

**Cynhadledd Ryngwladol ar ieithoedd Lleiafrifol (20-24 Mehefin 2023)**
Fe wnaeth y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd gynnal Cynhadledd Ryngwladol ar Ieithoedd Lleiafrifol (ICML) am y tro cyntaf ers 30 mlynedd. Daeth dros 300 o gynadleddwyr o bob rhan o'r byd i Gampws y Drindod Dewi Sant yn ystod wythnos 20-24ain o Fehefin. Pwrpas y gynhadledd oedd tynnu ynghyd academyddion, ymchwilwyr ac arbenigwyr ieithoedd lleiafrifol i rannu ymchwil, dysgu am syniadau newydd yn y maes, rhwydweithio, a chlywed am fentrau newydd. Dywedodd yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Cyfarwyddwr y a Chadeirydd y Pwyllgor Academaidd Rhyngwladol ar gyfer y gynhadledd:

"*Mae gennym dridiau llawn gyda dros 130 o bapurau academaidd, paneli a phosteri gan siaradwyr hynod brofiadol ac ymchwilwyr gyrfa gynnar, o sawl gwlad a chyfandir. Mae'r cyfnewid rhyngwladol hwn – o brofiadau, syniadau, theorïau, methodolegau, astudiaethau achos, cyd-destunau canlyniadau a chasgliadau – yn holl bwysig wrth i ni geisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n hieithoedd ac i amrywiaeth ieithyddol drwy'r byd.*"

Ym mis Mawrth 2023 fe groesawodd Cymdeithas Gymraeg Prifysgol y Drindod Dewi Sant yr Eisteddfod Ryng-Golegol i gampws Llambed; un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ar gyfer myfyrwyr Cymraeg. Daeth hyd at 500 o fyfyrwyr o Brifysgolion y Drinod Dewi Sant, Aberystwyth, Abertawe, Bangor a Chaerdydd i gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon a'r Eisteddfod, gyda penllanw'r dathlu yn dod i ben gyda gig mawreddog ar y nos Sadwrn, gydag 'Dros Dro', Mali Haf a Morgan Elwy yn perfformio. Bu'n gyfle euraidd i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod ar draws campysau'r Brifysgol.

**Ysgoloriaeth Y Coleg Cymraeg**
Mae PCDDS yn hyrwyddo Ysgoloriaeth Y Coleg Cymraeg yn flynyddol. Dyfernir yr ysgoloriaeth i fyfyrwyr israddedig llawn amser sy'n cynnal y cyfan neu ran o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog; cynigir £50 am bob 10 credyd a gwblhawyd yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog (rhaid bod o leiaf 50% o'r modylau yn ddwyieithog). Dyfarnir hyd at £600 y flwyddyn i mewn rhaglenni gradd tair blynedd, neu £900 mewn rhaglenni gradd dwy flynedd dwys. Yn y flwyddyn adrodd, dyfarnwyd 141 o Ysgoloriaethau i fyfyrwyr y Drindod Dewi Sant.

Mae PCDDS yn tynnu sylw at yr ysgoloriaethau hyn drwy amrywiol ffyrdd; yn y diwrnodau agored; ar dudalennau Instagram y Gangen; danfonir e-bost at fyfyrwyr sydd wedi nodi eu bod yn medru'r Gymraeg ac ar ddechrau'r flwyddyn cyn y dyddiadau cau; bydd darlithwyr yn hyrwyddo yn eu darlithoedd a bydd Swyddog y Gangen yn ymweld â phob dosbarth Cymraeg ar ddechrau blwyddyn academaidd.

**Cwrs Gradd Heddlua Proffesiynol, Academi Golau Glas**
Nod yr Academi Golau Glas (AGL) yw cyflwyno rhaglenni a chynnal ymchwil sy'n datblygu a chyfoethogi gallu unigolion a sefydliadau i wella effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Mae datblygiad yr academi wedi'i seilio ar yr 'ethos un gwasanaeth cyhoeddus' a nodau 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'. Mae'r academi wedi creu modiwl 'Cymraeg yn y Gweithle' (20 Credyd) er mwyn paratoi myfyrwyr a'u galluogi i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg wrth eu gwaith. Yn y cyfnod adrodd llwyddodd 15 i gwblhau'r modiwl.

Yn dilyn llwyddiant cyflwyno'r modiwl yn yr Academi Golau Glas, mae'n fwriad cyflwyno'r modiwl fel rhan o'r cwrs Nyrsio, o fis Fedi 2024.

Mae'r uchod yn cynnig prawf bod y Brifysgol yn ystyried bod ganddi rôl bwysig wrth ddatblygu sgiliau dwyieithog y gweithluoedd hynny sy'n allweddol i agenda Cymru 2050.

## 2. Cydymffurfiaeth Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-92a)

### Trefniadau Cydymffurfio

#### Cynllun Cydymffurfio

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Brifysgol wedi diwygio a chyhoeddi ei Chynllun Cydymffurfio, sy'n nodi sut byddwn yn hybu a hwyluso defnydd o wasanaethau Cymraeg ynghyd â sut byddwn yn goruchwylio cydymffurfiaeth a'r safonau. Mae'r ddogfen wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: Cynllun Cydymffurfio

#### Hunanasesu

Fel ffordd o oruchwylio a hwyluso cydymffurfiaeth y Brifysgol a'r Safonau ymhellach, rydym wedi datblygu prosiect ymgysylltu, lle bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda'r unedau proffesiynol a'r athrofeydd yn unigol i drafod y safonau sy'n berthnasol iddynt ac i gydweithio arnynt. Yn rhan o hyn mae proses ar waith ar gyfer archwiliadau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd profiad. Byddwn yn gofyn i'r adrannau hunanasesu eu hunain yn erbyn y Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau unigol. Pwrpas yr hunan asesiad yw atgoffa rheolwyr o ofynion y Safonau Iaith a rhoi cyfle iddynt osod gwaelodlin ar gyfer yr adrannau. Bydd y ffurflen yn cael eu hanfon eto er mwyn gallu adnabod cynnydd ac arfer dda. Rydym eisoes wedi lansio'r Cynllun Peilot, ac yn gweithio gyda'r adrannau a restrir isod er mwyn medru mireinio'r broses. Fodd bynnag, bydd y gwaith hwn yn cynyddu yn y flwyddyn newydd, gan fod Swyddog Safonau'r Gymraeg bellach wedi dechrau yn y swydd.

- 13/7/23: Swyddfa Academaidd
- 17/7/23: Gweithrediadau, Ystadau Gweithredol a Chyfleusterau
- 11/12/23: Llywodraethu Corfforaethol

### Codi Ymwybyddiaeth o Ofynion Safonau'r Gymraeg

#### Diwrnod Diweddariadau Hanfodol

Yn mis Medi (11/09) fel rhan o ddiwrnod Diweddariadau Hanfodol, rhoddwyd cyflwyniad i'r i'r staff academaidd ac anacademaidd ar ofynion Safonau'r Gymraeg. Fe gafodd y sesiwn ei fynychu gan dros 400 o staff drwy blatfform TEAMS. Rhoddwyd gwybod am ddeddfwriaeth a hawliau, gofynion y Safonau, trefniadau mewnol ar gyfer cydymffurfiaeth, dod i ddeall y rhwystrau ynghyd â rhannu gwybodaeth am adnoddau dysgu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg.

#### Hyfforddiant Derbynfeydd

Mae holl staff derbynfeydd wedi mynychu sesiynau ffurfiol sy'n cyflwyno gofynion cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg ochr yn ochr â hyfforddiant ieithyddol sy'n galluogi gwasanaeth derbynfa cyfrwng Cymraeg briodol. Darparwyd sesiynau hyfforddiant ar 17/3/23 a 23/3/23.

**E-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith**
Gofynnir i holl staff y Brifysgol gwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r e-fodiwl yn gwrs gofynnol i'r holl staff ac mae'n un o'r cyrsiau cynefino i weithwyr newydd. Rhoddir gwybodaeth ar gyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg, manteision dwyieithrwydd ac eglurhad o'r Safonau, a'r angen i gydymffurfio a'r hyn swydd wedi'i gynnwys yn y Canllawiau. Mae'r e-fodiwl yn cyfeirio staff at y Canllawiau. Yn ystod y cyfnod adrodd mae 25 aelod o staff wedi cwblhau'r e-fodiwl.

**Cyngor a Chanllawiau i Staff**
Rhoddir gwybod yn rheolaidd i'r holl Ysgolion /Unedau am eu dyletswydd o ran hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn unol â'r Safonau cyflenwi gwasanaethau.
Mae canllawiau clir wedi'u lledaenu ar arfer disgwyliedig a dulliau o hyrwyddo gwasanaethau. Mae'r Brifysgol wedi creu a chyhoeddi canllawiau i staff hwyluso cydymffurfiaeth:

- Pam defnyddio'r iaith Gymraeg
- Ar y ffôn
- Gohebiaeth
- Dylunio, Cyhoeddi ac Arwyddion
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd

**Hysbysrwydd**
Caiff staff eu hatgoffa'n rheolaidd o ofynion dyletswydd ac o ganllawiau'r Brifysgol yn y bwletin staff wythnosol. Cedwir yr holl ganllawiau'n ganolog ar safle SharePoint y Brifysgol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r materion canlynol:

- **Bathodyn Iaith Gwaith**
  Cafodd staff eu hatgoffa bod gwisgo Cordynau gwddf a/neu bathodyn iaith gwaith yn ffordd wych o roi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd bod y rhain ar gael i'w casglu ymhob derbynfa ar bob campws.

- **Negeseuon allan o'r swyddfa a Llofnod e-bost electronig**
  Gosodwyd canllaw ar y fewnrwyd er mwyn atgoffa staff i ddefnyddio negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog, yn ogystal â sicrhau bod llofnod e-bost yn ddwyieithog ac yn nodi os yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg. Mae'r canllaw ar y fewnrwyd, ac wedi ei osod fel rhan o Ganllaw Brandio PCYDDS. Atebion e-bost awtomatig.pdf (sharepoint.com)

- **Cefndir Corfforaethol Teams**
  Mae'r Brifysgol yn gweithredu system weithio hybrid, gyda chydweithwyr yn gweithio cyfuniad o weithio ar y campws ac oddi arno; ac mae platfform digidol Teams yn parhau fel adnodd sy'n cael defnydd helaeth wrth drefnu cyfarfodydd. Yn unol â hyn mae'r Tîm Marchnata wedi creu cefndir corfforaethol sy'n cynnwys y bathodyn 'Cymraeg'; fel bod modd amlygu siaradwyr Cymraeg hyd yn oed wrth weithio'n rhithiol .

- **Dysgu Digidol a Chreadigrwydd**
  Crëwyd ffurflen newydd ar gyfer gofyn am waith dylunio sy'n atgoffa staff i gyflwyno'r gwaith yn Gymraeg/dwyieithog.

- **Y Gwasanaeth Cyfieithu**
  Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu'n rhan allweddol o'r seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Yn dilyn sylw yng nghyfarfod Pwyllgor Y Gymraeg ym mis Medi 2022, cytunwyd y dylid llunio canllawiau ar sut i annerch a chyflwyno yn ddwyieithog. Mae Pennaeth yr Uned Gyfieithu wedi datblygu canllawiau ar sut i annerch a chyflwyno yn

ddwyieithog mewn cyfarfodydd; mae'r canllawiau hyn wedi'u rhannu ac ar gael i'w defnyddio.

- **Cyngor Cyffredinol**
  At hyn darparwyd cyngor yn rheolaidd hefyd i unedau proffesiynol amrywiol fel yr Uned Gyllid, yr Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, yr Uned Farchnata, Yr uned Ymchwil a Datblygu, Y Gofrestrfa ac ardaloedd Derbynfa'r campysau amrywiol. Roedd y Cyngor yn amrywio o ddarparu arweiniad ar weithredu'r Safonau'r Gymraeg yn ogystal â thrafod ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg.

- **Codi Ymwybyddiaeth o Wasanaethau Cymraeg**
  Codir ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg trwy ddulliau amrywiol. Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, cyhoeddir fideo at sylw pob myfyriwr newydd sy'n egluro'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Mae'r fideo'n cynnwys gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Safonau'r Gymraeg, Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys Rhagoriaith a Pheniarth, Y Dystysgrif Sgiliau Iaith, Canolfan S4C – Yr Egin, a'r Atom yn nhref Caerfyrddin.

  Mae'r Brifysgol yn defnyddio dyddiadau penodol yn y calendr er mwyn hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i ddanfon negeseuon ar Ddiwrnod Shw Mae [15/10] a Dydd Gŵyl Dewi 2022. Crëwyd fideo ar gyfer Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Cyhoeddwyd un fideo i fyfyrwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn eu hatgoffa a'u hannog i ymarfer eu hawliau i dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Yn unol â Diwrnod Hawliau'r Comisiynydd [9/12], dyluniwyd neges Diwrnod Hawliau'r Gymraeg â baner ar hafan mewnrwyd y Brifysgol i ddenu sylw myfyrwyr a staff.

- **Y Wefan Gorfforaethol**
  Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r wefan, ac i sicrhau bod yr holl dudalennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y wefan yn cynnwys botwm, er mwyn medru hwylio'n hwylus o'r dudalen Gymraeg i'r dudalen Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Mae'r Brifysgol yn anelu at lansio'r wefan newydd ym mis Chwefror, a bydd polisi yn ei le na fydd unrhyw wybodaeth ar y wefan yn cael ei huwchlwytho hyd nes y bydd fersiwn Cymraeg a Saesneg ar gael.

- **Gwasanaeth Myfyrwyr**
  Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd mae'r adran yn cwrdd â phob myfyriwr er mwyn rhoi gwybod iddynt bod modd dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a hefyd bodd cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad; ac na fydd yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn y Saesneg fel rhan o'r asesiad neu arholiad hwnnw.

## 3. Cydymffurfiaeth Safonau Llunio Polisi (Safonau 94-104)

**Polisi ar Ddyfarnu Grantiau** (100)
Mae Rheoliadau Ariannol y Brifysgol wedi ymgorffori gofynion Safonau'r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau/ cymorth ariannol.

**Asesu Effaith Penderfyniadau Polisi ar y Gymraeg 94-96**
Mae'r trefniadau o ran ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg wedi eu sefydlu, ac yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi diwygio a gwella ein ffurflen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Cyn cyflwyno polisi newydd i'w gymeradwyo, rhaid i'r rheolwr priodol gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg; ac wrth gyflwyno

papurau i bwyllgorau, mae pob rheolwr yn llenwi tudalen glawr sy'n gofyn eu bod wedi ystyried effeithiau'r penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, gan amlygu unrhyw effeithiau sydd angen ystyriaeth bellach.

Cafodd sesiwn hyfforddiant ei gynnal gydag ysgrifenyddion y pwyllgorau [14/12] er mwyn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod Asesiadau Effaith yn cael eu cynnwys gydag unrhyw bapur sy'n cyflwyno penderfyniad polisi i bwyllgor perthnasol y Brifysgol.

**Cynllun Cydymffurfiaeth (165, 167, 171, 173, 177,179)**
Mae'r Cynllun Cydymffurfiaeth wedi ei ddiweddaru, ac wedi'i ei rannu'n eang drwy Bwyllgor Y Gymraeg, a'r Is-bwyllgorau, cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan corfforaethol. Mae'r Cynllun Cydymffurfiaeth yn rhoi gwybodaeth sut bydd y Brifysgol yn:

(i) Goruchwylio'r modd y bydd yn cydymffurfio gyda Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi a Safonau gweithredu
(ii) Hybu a hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

Dilynwch y ddolen: Cynllun Cydymffurfio

## 4. Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu (Safonau 105-153)

Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r Brifysgol wedi bod yn diwygio ac ymgynghori ynghylch Polisi Defnydd Mewnol Y Gymraeg , er mwyn darparu arweiniad ynghylch sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Unwaith bydd y broses ymgynghori mewnol wedi cwblhau, byddwn yn hyrwyddo'r Polisi ymhlith staff trwy dynnu sylw ato yn y Bwletin Staff wythnosol. Er mwyn datblygu'r polisi rydym wedi cymryd i ystyriaeth egyngor a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg: Codi'r Bar, Adroddiad Sicrwydd 2022-23.

Cedwir cofnod o sgiliau iaith pob aelod o staff ar system Adnoddau Dynol y Brifysgol (Resourcelink). Mae'r Brifysgol yn annog staff i adolygu a diweddaru eu cofnodion yn rheolaidd trwy'r system ar-lein. Darperir adroddiad ar sgiliau iaith staff i bwyllgorau'r Gymraeg, ac yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r iaith Gymraeg fel rhan o ganllawiau recriwtio a phenodi'r Brifysgol. Mae pob rheolwr yn cwblhau asesiad gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd wag gyda'r bwriad o sicrhau fod gallu'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob uned yn flaenoriaeth.

Mae Adnoddau Dynol yn defnyddio system ar-lein i recriwtio ac mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen ar-lein. Mae'r system yn gwbl ddwyieithog ac felly gall pob ymgeisydd ddewis p'un ai lenwi'r ffurflen yn Gymraeg ai peidio. Os yw ymgeisydd yn ymgeisio am swydd trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cyfweliad, cytundeb cyflogaeth ac unrhyw ohebu yn dilyn hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob aelod o staff yn cael cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg neu uwchsgilio eu lefel hyfedredd bresennol. Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu a chaiff cyrsiau eu cynnig i staff ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Cynigir cyrsiau hunan astudio ar -lein a chymorth tiwtor yn ogystal â chyrsiau a addysgir gan diwtor gyda gwaith cyfeirio. Gweler data yn Adran 6: Hyfforddiant.

At hyn mae gan y Brifysgol nifer o gynlluniau mewnol, er mwyn ceisio annog defnydd y Gymraeg:

**Paned a Sgwrs**

Mae cyfle i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd i ddod at ei gilydd yn ein sesiwn wythnosol a chael cyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg, ynghyd â chefnogi siaradwyr newydd. Mae rhwng 10 a 15 yn ymuno'n wythnosol.

**Côr y Gangen**
Mae yna gyfle i gymdeithasu a chael hwyl yn y Gymraeg drwy ymuno gydag ymarferion Côr y Gangen, bob nos Fawrth. Mae aelodau'r côr yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi a Gwasanaeth Nadolig y Brifysgol. Mae gan y Côr aelodaeth o rhwng 20 - 30 aelod.

**Cynllun Ffrind Iaith**
Bob blwyddyn, mae Rhagoriaith yn croesawu athrawon i'n campysau i'w trochi yn y Gymraeg dros dymor yr Hydref a'r Gwanwyn ar Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'r cynllun mae'r Brifysgol yn trefnu cynllun 'FfrindIaith" sy'n paru'r athrawon gydag aelod o staff y Brifysgol er mwyn cwrdd ag ymarfer eu Cymraeg, gall hyn fod dros Teams, neu dros baned ar y campysau. Pwrpas y cynllun yw magu hyder yr athrawon a rhoi cyfle iddynt ymarfer y tu allan i'r dosbarth mewn awyrgylch anffurfiol a naturiol - jest sgwrs gyda ffrind newydd.

**Dysgu Cymraeg ar Gampws Llundain**
Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022, cychwynnodd grŵp o fyfyrwyr a staff ar gampws Llundain yn Y Drindod Dewi Sant ar eu taith gyntaf i ddysgu Cymraeg. Fel rhan o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, teimlai staff a myfyrwyr ar Gampws Llundain ei bod yn bwysig dysgu mwy am ddiwylliant a hanes Cymru, yn enwedig trwy'r iaith. Hefyd, roedd yn gyfle gwych i gysylltu â chydweithwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru ar lefel fwy personol.
Dywedodd Tsz Yan Lee, Swyddog Gweinyddol, Yr Adran Marchnata a Chyfathrebu:
*"the Welsh classes are extraordinarily fun. We had a chance to learn to write and speak in Welsh. In the first lesson, none of us could say a word in Welsh. But now, at least we can greet each other in Welsh! For me, learning a new language is not easy, learning Welsh is even more challenging. The pronunciation of the language is very different from the other languages that I speak. But it helped me to think differently, as well as understand more about the culture and history of Wales."*

## 5. Adrodd ar Gwynion (Safonau 163-177)

Derbyniwyd 3 chŵyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, 2 a ddaeth at ein sylw yn uniongyrchol, a'r llall drwy law Comisiynydd y Gymraeg, a arweiniodd at ymchwiliad a gosod camau gweithredu gorfodol ar PCDDS.

| Dosbarth o Safonau | Dyddiad Derbyn | Uniongyrchol / Comisiynydd y Gymraeg | Disgrifiad o'r Gwyn | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 20/2/2023 | uniongyrchol | Negeseuon allan o'r swyddfa uniaith Saesneg gan reolwyr | Wedi gosod canllaw ar y fewnrwyd. Atebion e-bost awtomatig.pdf (sharepoint.com) |
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 20/3/2023 | uniongyrchol | Llythyr dirwy parcio wrth Parking Eye yn | Parking Eye wedi newid y llythyron, wedi |

| Dosbarth o Safonau | Dyddiad Derbyn | Uniongyrchol / Comisiynydd y Gymraeg | Disgrifiad o'r Gwyn | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | nodi nad oedd modd apelio yn Gymraeg. | derbyn cadarnhad bod y frawddeg wedi'i thynnu o bob llythyr. Wedi dileu'r dirwy i'r achwynydd. |
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 30/1/2023<br><br>17/4/2023 | Comisiynydd y Gymraeg | Honiad bod yr achwynydd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg<br><br>Honiad gan yr achwynydd nad oedd rhai tudalennau ar y wefan ar gael yn Gymraeg. | Yn parhau.<br><br>Wedi arwain at Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg; sydd wedi arwain at osod camau gweithredu gorfodol ar y Brifysgol, i'w cyflawni erbyn 12 Chwefror 2024. |
| Safonau Llunio Polisi | 0 | | | |
| Safonau Gweithredu | 0 | | | |

**Gweithdrefn Gwyno 164**
Mae adolygiad wedi 'i gwblhau o'r broses gwyno mewnol fel ei fod yn cyd-fynd a'r drefn gwyno allanol a bod modd defnyddio traciwr cyffredin ar gyfer y ddwy weithdrefn o gwynion. Yn unol â hyn mae dogfen Gweithdrefn Cwynion y Gymraeg wedi ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ar y wefan gorfforaethol. Dilynwch y ddolen: Gweithdrefn Cwynion y Gymraeg.

Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â safonau ac amserlen Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff y broses hon ei blaenoriaethu dros ein terfynau amser arferol.

## 6. Adrodd ar Sgiliau Cymraeg Staff

**Sgiliau Cymraeg y rheini a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2023**

**(i) Canran y staff academaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

| | % Gallu addysgu | % Methu addysgu | % Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Staff Academaidd 2023** | 13% (55) | 68.6% (290) | 18.4% (78) |
| **Staff Academaidd 2022** | 12.6% (46) | 65.9% (241) | 21.6% (79) |
| **Staff Academaidd 2021** | 14.8% (48) | 63% (205) | 22.2% (72) |
| **Staff Academaidd 2020** | 16% (51) | 62.7% (200) | 21.3% (68) |

**(ii) Canran y staff academaidd a leolwyd ar gampysau Cymru a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

| | % Gallu addysgu | % Methu addysgu | % Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| **Staff Academaidd 2023** | 14.2% (55) | 67% (259) | 18% (71) |
| **Staff Academaidd 2022** | 13.6% (46) | 64.3% (218) | 22.1% (75) |

Bu cynnydd yn nifer y staff academaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (+ 9 aelod staff academaidd).

**(iii) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a oedd yn gallu siarad Cymraeg**

| | Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl | Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|
| **Canran 22/23** | 19.6% (279) | 26.5% (377) | 39.8% (567) | 14.1% (201) |
| **Canran 21/22** | 19.6% (247) | 26.1% (330) | 41.2% (520) | 13.1% (165) |
| **Canran 20/21** | 21.5% (227) | 23.8% (252) | 40.8% (431) | 13.9% (147) |
| **Canran 19/20** | 21.9% (232) | 23.0% (244) | 40.1% (425) | 15.1% (160) |

**(iv) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a leolwyd ar gampysau Cymraeg a oedd yn gallu siarad Cymraeg**

| | Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl | Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|
| **Canran 22/23** | 21.5% (279) | 28.8% (374) | 36.3% (472) | 13.5% (175) |
| **Canran 21/22** | 21.3% (246) | 28.4% (328) | 37.3% (431) | 13.0% (150) |
| **Canran 20/21** | 22.8% (225) | 25.5% (252) | 37.6% (372) | 14.2% (140) |
| **Canran 19/20** | 22.9% (230) | 24.3% (244) | 37.6% (378) | 15.2% (153) |

Mae nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ar draws y Brifysgol wedi cynyddu (+ 32 cyfrif pen), ynghyd a'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ond nid yn rhugl (+ 47 cyfrif pen) wedi cynyddu ar draws y Brifysgol o'i gymharu â data 21/22 (Tabl iii).

Mae'r gyfradd ganrannol wedi aros yr un fath gan fod y cyfrif pen wedi cynyddu 11.5% (+162 cyfrif pen) (Tabl iii).

Ym mis Gorffennaf 2023 rydym yn gallu nodi bod 50.3% (653) o staff ar ein campysau yng Nghymru yn medru siarad Cymraeg (naill ai yn rhugl, neu yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl) (Tabl iv).

## Hyfforddiant (Safonau 135-141)

**Hyfforddiant i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg**

**Darpariaeth Staff**

- **Dysgu Cymraeg**
  Cwblhaodd 18 aelod o staff hyfforddiant i ddysgu Cymraeg (lefel Mynediad, Sylfaen neu Uwch) yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23.

- **Tystysgrif Sgiliau Iaith (TSI) ar gyfer staff**
  Enillodd 12 aelod o staff gymhwyster TSI yn llawn (gan gynnwys staff Coleg Sir Gâr / Ceredigion). Roedd 26 aelod o staff wedi elwa o'r seminarau iaith (cyfanswm o 8 seminar) ond nifer wedi penderfynu peidio ymgeisio am y Dystysgrif yn y pendraw.

- **Hyfforddiant cymryd cofnodion trwy gyfrwng y Gymraeg:**
  12 aelod o staff.

**Darpariaeth i Fyfyrwyr**

**Cwrs Hunan Astudio i Fyfyrwyr ar lefel Mynediad**:
100 o fyfyrwyr wedi cofrestru i ddilyn y cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd.

**Tystysgrif Sgiliau Iaith (TSI) ar gyfer myfyrwyr**
32 myfyriwr cyfrwng Cymraeg wedi ennill cymhwyster TSI yn llawn.

**Cyrsiau Hyfforddiant eraill:**

Cynigwyd y cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg isod yn ystod y flwyddyn.

| Teitl | Niferoedd | | | Canran |
|---|---|---|---|---|
| | Staff Academaidd | Gwasanaethau Proffesiynol | Cyfanswm | |
| Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg | 9 | 16 | 25 | 8.6% |
| Modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 8 | 10 | 18 | 5.6% |
| Modiwl e-ddysgu Deall Iechyd a Diogelwch | 1 | 2 | 3 | 0.9% |
| Modiwl e-ddysgu Creu Cynnwys Hygyrch | 1 | 9 | 10 | 5.4% |
| Modiwl e-ddysgu Hanfodion Diogelu | 0 | 2 | 2 | 0.6% |
| Cwrs I-Act Iechyd Meddwl | 6 (100% | | | |
| VR a fi ? Fi a VR ? Realiti Rhithwir ac Addysgu Iaith / VR and me? Me and VR? Virtual Reality and Language Teaching – | Sesiynau dwyieithog, 36 wedi mynychu | | | |

| Teitl | Niferoedd | | | Canran |
|---|---|---|---|---|
| | Staff Academaidd | Gwasanaethau Proffesiynol | Cyfanswm | |
| NEXUS Conference Session | | | | |

Mae modiwlau e-ddysgu Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data ar gael i staff yn ddwyieithog. Yn y flwyddyn academaidd hon, bydd un modiwl e-ddysgu pellach ar gael i staff yn ddwyieithog, sef Cydraddoldeb Hiliol.

### Recriwtio i Swyddi Gwag

### Swyddi newydd a gwag

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

**(i) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar draws y Brifysgol**

| **Blwyddyn** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu'n ddymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd lle nad oedd y Gymraeg yn sgil gofynnol** | **% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i swyddi gwag gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **22/23** | 68.9% (284) | 58.9% (243) | 10% (41) | 31% (128) *** | 93% * |
| **21/22** | 72.7% (344) | 60% (284) | 12.68% (60) | 27% (129)*** | 100%** |
| **20/21** | 76.9% (207) | 58.7% (158) | 18.2% (49) | 23% (62)*** | 100%** |
| **19/20** | 100% (106) | 78.3% (83) | 21.6% (23) | 0% (0) | 100%** |

**(ii) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar ein campysau yng Nghymru**

| **Blwyddyn** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu'n ddymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd lle nad oedd y Gymraeg yn sgil gofynnol** | **% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i swyddi gwag gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **22/23** | 100% (283) | 85.5% (242) | 14.5% (41) | 0 | 93% (38)* |
| **21/22** | 100% (344) | 82.56% (284) | 17.44% (60) | 0 | 100%** |

Yn ystod 22/23 hysbysebwyd 85.5% (242) o swyddi gwag ar ein campysau yng Nghymru gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol, a hysbysebwyd 14.5% 941) gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol.

* Yn 22/23, roedd 93% (38) o'r swyddi wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. Ni phenodwyd 7% (3) oherwydd nad oedd digon o ymgeiswyr neu ansawdd yr ymgeiswyr heb y sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r swydd.
**100% lle'r oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd. Mewn rhai achosion, nid oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd oherwydd prinder ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.

*** Mae'r swyddi gwag hyn wedi'u lleoli ar ein campysau yn Llundain a Birmingham, lle nad oes gofyn am sgiliau Cymraeg).

Mae'r Brifysgol wedi datblygu ei system recriwtio ar-lein ymhellach fel y bydd yn gallu darparu data ar ganran y siaradwyr Cymraeg a benodir i swyddi gwag, gyda'r Gymraeg yn sgil ddymunol yn y blynyddoedd i ddod.